Lenalidomide a meddyginiaethau generig cyfatebol Gwybodaeth i gleifion

1. Pam rydw i'n derbyn y daflen hon?

Ar hyn o bryd rydych yn cael eich trin â lenalidomide. Mae'r feddyginiaeth hon hefyd yn cael ei hadnabod wrth ei henw brand Revlimid®. Tan yn ddiweddar, dim ond un gwneuthurwr oedd yn cynhyrchu lenalidomide (Bristol Myers Squibb Pharmaceuticals).

Mae lenalidomide bellach ar gael gan wneuthurwyr eraill am nad yw'n cael ei warchod gan batent mwyach. Gelwir y fersiynau o lenalidomide gan wneuthurwyr eraill yn feddyginiaethau generig cyfatebol. Gall defnyddio meddyginiaethau generig cyfatebol fod yn fwy cost-effeithiol i'r GIG.

O fis Rhagfyr 2022 ymlaen, bydd GIG Cymru yn dechrau defnyddio meddyginiaethau generig cyfatebol o lenalidomide. Gallwch barhau i ddefnyddio'r Revlimid® sydd gennych chi nes bydd yn gorffen. Pan fydd eich presgripsiwn nesaf yn cael ei archebu, bydd meddyginiaeth generig gyfatebol i lenalidomide yn cael ei darparu. Efallai y byddwch yn sylwi bod y tabledi a gewch yn dod mewn gwahanol ddeunydd pacio. Gall lliw'r capsiwlau a'u marciau fod yn wahanol hefyd.

2. Sut ddylwn i gymryd lenalidomide generig?

Cymerwch lenalidomide generig yn yr un ffordd ag y cymeroch chi Revlimid®. Mae'r ddau lenalidomide - Revlimid® a'r un generig ar gael mewn amrywiaeth o gryfderau. Byddwch yn derbyn lenalidomide generig yn y cryfder cywir i chi. Bydd eich meddyg, nyrs neu fferyllydd yn dweud wrthych faint o bob capsiwl i'w cymryd a phryd i'w cymryd. Os ydych chi fel arfer yn cymryd dexamethasone neu feddyginiaethau eraill ar gyfer canser gyda'ch lenalidomide, daliwch ati i wneud hyn.

Darllenwch y cyfarwyddiadau ar eich meddyginiaethau yn ofalus bob amser fel eich bod yn gwybod sut i gymryd eich capsiwlau. Cymerwch lenalidomide generig ar yr un pryd bob dydd rydych chi'n ei gymryd. Llyncwch y capsiwlau'n gyfan â dŵr; peidiwch â'u hagor na'u cnoi. Gallwch gymryd lenalidomide generig gyda bwyd neu hebddo.

Fel yn achos Revlimid®, dylai rhai sy'n rhoi gofal ac aelodau o'r teulu wisgo menig tafladwy wrth drin y pecyn neu'r capsiwl. Yna dylid tynnu menig yn ofalus a'u gwaredu'n ddiogel.

3. Beth bydd y newid yn ei olygu i mi?

Mae capsiwlau o'r un cryfder o lenalidomide generig a Revlimid® yn cynnwys yr un faint o'r cynhwysyn actif (lenalidomide). Er enghraifft, mae capsiwlau 10mg Revlimid® yn cynnwys yr un faint o lenalidomide â chapsiwlau 10mg o lenalidomid generig felly bydd y driniaeth a gewch yn aros yn ddigyfnewid.

Bydd eich meddyg yn parhau i wneud yr un profion a gwiriadau a wnânt tra byddwch yn cael eich trin gyda Revlimid®.

Mae gwahaniaethau bach iawn rhwng y llenwyddion (cynhwysion nad ydynt yn actif) mewn lenalidomide generig a Revlimid®. Ni fyddem yn disgwyl i'r gwahaniaethau bach hyn achosi unrhyw broblemau.

- Mae capsiwlau lenalidomide generig yn cynnwys symiau bach iawn o sodiwm ymhob capsiwl, neu ddim o gwbl.
- Mae'r rhan fwyaf o fersiynau generig o lenalidomide yn cynnwys tua'r un faint o lactos â Revlimid®.
- Mae ychydig o gynhyrchion lenalidomide generig yn cynnwys tartrazine neu liwiau bwyd sydd wedi'u cysylltu â gorfywiogrwydd mewn plant. Siaradwch â'ch fferyllydd os ydych yn sensitif i dartrazine neu liwiau bwyd eraill.
- Mae cregyn capsiwl y cynhyrchion lenalidomide generig a Revlimid® i gyd yn cynnwys gelatin.

Disgwylir i sgil-effeithiau cynhyrchion lenalidomide generig fod yr un fath â Revlimid®. Fel gyda phob meddyginiaeth, os byddwch yn profi unrhyw sgil-effeithiau o'ch triniaeth, dylech roi gwybod i'ch meddyg, eich nyrs neu eich fferyllydd. Gallwch hefyd ddefnyddio'r ap Cerdyn Melyn (i'w lawrlwytho o Google Play neu'r Apple App Store) neu safle'r Cerdyn Melyn i roi gwybod am sgil effeithiau.

4. Sut ddylwn i storio lenalidomide generig?

Storiwch lenalidomide generig ar dymheredd ystafell arferol (o dan 25°C), i ffwrdd o wres a golau haul uniongyrchol.

5. A yw'r cyngor beichiogrwydd yr un fath ar gyfer lenalidomide generig?

Mae lenalidomide generig yn cynnwys yr un cynhwysyn actif (lenalidomide) â Revlimid®. Mae disgwyl i Revlimid® a lenalidomide generig niweidio babanod yn y groth, felly ceisiwch osgoi beichiogrwydd neu wneud rhywun yn feichiog tra eich bod yn cymryd lenalidomide. Os ydych chi'n gallu beichiogi pan fyddwch chi'n newid i lenalidomide generig, bydd dal angen i chi roi cadarnhad i'ch meddyg bod y mesurau atal beichiogrwydd angenrheidiol wedi'u cymryd.

6. Beth yw lenalidomide a sut mae'n cael ei ddefnyddio?

Mae lenalidomide yn feddyginiaeth sy'n cael ei lyncu mewn capsiwlau. Mae'n gweithredu yn erbyn celloedd canser drwy atal eu twf, gan helpu eich system imiwnedd i ymosod arnynt, a thrwy atal celloedd canser rhag datblygu'r cyflenwad gwaed sydd ei angen arnynt i dyfu.

Cyngor pellach

Os oes gennych ymholiadau pellach am lenalidomide neu feddyginiaethau generig cyfatebol, trafodwch y rhain gyda meddyg, nyrs neu fferyllydd yn nhîm yr ysbyty sy'n gyfrifol am eich gofal.

Mae gwefannau **Cancer Research UK** a **Chymorth Canser Macmillan** yn rhoi gwybodaeth am lenalidomide a chefnogaeth ymarferol ac emosiynol i bobl sy'n byw gyda chanser:

https://www.cancerresearchuk.org/about-cancer/cancer-in-general/treatment/cancer-drugs/drugs/lenalidomide

https://www.macmillan.org.uk/cancer-information-and-support/treatments-and-drugs/lenalidomide

This leaflet is also available in English Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg.